CYFRES B9

# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Enw ____________________



DARLLENWCH
Exodus 3: 1-22




ADNOD ALLWEDDOL
Exodus 3: 12

*Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 3 Moses yn gweld perth yn llosgi.

Roedd Moses wedi bod yn byw yn yr anialwch am tua 40 mlynedd. Erbyn hyn, roedd wedi priodi un o ferched Jethro.
Un diwrnod, pan oedd yn bugeilio defaid Jethro, gwelodd olygfa ryfedd iawn.

**C Ysgrifennwch lythyren gyntaf pob un o'r lluniau i ddarganfod beth yw'r olygfa ryfedd.**




__ __ __ __   __ __   __ __ __ __ __

4

Roedd perthi ar dân yn beth digon cyffredin yn yr anialwch. Ond roedd y berth hon yn wahanol. Roedd ar dân, ond doedd hi ddim yn llosgi nac yn cael ei difa!






3

**Lliwiwch y llun**

Roedd Moses yn chwilfrydig, felly aeth yn nes er mwyn cael gweld. Siaradodd Duw â Moses o ganol y berth. "Moses, Moses!", meddai'r Arglwydd.
Yna dywedodd Duw wrth Moses am dynnu ei esgidiau. Esboniodd Duw wrtho fod y llecyn roedd yn sefyll arno yn dir sanctaidd. Roedd hwn yn llecyn arbennig iawn oherwydd roedd Duw yno!



Doedd Duw ddim wedi anghofio am Moses, er bod Moses wedi gwneud pethau drwg yn yr Aifft flynyddoedd lawer cyn hynny. Roedd yr Arglwydd yn fodlon maddau iddo, a nawr roedd ganddo waith arbennig ar ei gyfer.

**C Gosodwch y geiriau sy'n dilyn yn y bylchau cywir er mwyn darganfod beth ddywedodd Duw wrth Moses am wneud.**

**Aifft Pharo Israeliaid**

Dos at P __ __ __ __ a thyrd â'r
I __ __ __ __ __ __ __ __ __ allan
o'r A __ __ __ __ .

6

Doedd Moses ddim yn teimlo mai fe oedd yr un i wneud gwaith mor bwysig. Dechreuodd hel esgusodion. Dyma'r geiriau ddywedodd Duw wrth Moses er mwyn tawelu ei feddwl.




"Byddaf fi gyda thi."

5

**Lliwiwch yr Adnod Allweddol.**

O'r diwedd, cytunodd Moses i fynd at Pharo a dweud wrtho am ollwng yr Israeliaid yn rhydd.
Anfonodd Duw Aaron gyda Moses i'w helpu. Roedd Aaron yn frawd i Moses.

**C Tanlinellwch enw brawd Moses.** 2

**Adda Aaron Andreas Abraham**

Er bod Moses wedi lladd rhywun, roedd Duw yn dal eisiau ei ddefnyddio. Mae Duw bob tro yn barod i faddau i ni, pan fyddwn ni'n dweud 'sori' wrtho. Wedyn bydd Duw yn rhoi gwaith i ni ei wneud drosto.

**cyfanswm**